Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Rhiannon Howard**

**Llanilltud Fawr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Chwefror 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant, gan gynnwys y plant newydd, yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus yn y lleoliad hwn. Maent yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigynnwrf, gan eu bod yn gwybod y caiff eu dewisiadau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n sicrhau eu bod yn cael digon o weithgareddau dan do ac awyr agored. Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda ac yn cofnodi cynnydd y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'n darparu amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o ddewis ar gael i'r plant. Mae'r adnoddau o ansawdd a chyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn dda ac mae'n drefnus. Mae'n gofyn am farn y rhieni ac yn cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ar gyfer y lleoliad gwarchod plant. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais da. Caiff eu dewisiadau eu gwerthfawrogi. Maent yn cael rhyddid i chwarae ac yn dewis pa deganau yr hoffent chwarae â nhw a pha weithgareddau yr hoffent eu gwneud o'r dewis da sydd ar gael. Mae'r plant yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain am eu chwarae. Er enghraifft, gwnaethant ddweud yn hyderus wrth y gwarchodwr plant beth roeddent am ei gael i ginio a gyda beth roeddent am chwarae nesaf.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn ymddiddan ac yn sgwrsio yn gadarnhaol â'r gwarchodwr plant, gan dderbyn ymatebion magwrus a phriodol. Mae'r plant, gan gynnwys y plant newydd, wedi ymgartrefu'n dda, yn ddigynnwrf ac yn teimlo'n ddigon cartrefol. Maent yn dangos hyder gyda'r gwarchodwr plant ac yn gwbl gyfforddus yn ei chwmni. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn drwy eu gwaith celf a thrwy'r ffotograffau sydd i'w gweld yng nghartref y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn dangos cwrteisi a pharch tuag at eraill. Maent yn dweud "*please*" a *"thank you"* yn gwrtais.

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn ymddiddan yn dda â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt sgwrsio a chwarae'n hapus. Maent yn mwynhau gwrando ar y gwarchodwr plant yn darllen stori ac yn chwarae rôl gyda nhw. Mae'r plant yn rhannu eitemau chwarae rôl y gegin yn dda ac yn defnyddio eu dychymyg yn effeithiol wrth chwarae rôl gyda'r doliau. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'r gwarchodwr plant yn dda. Er enghraifft, pan fydd yn eu hannog i chwilio am flanced y doliau eu hunain yn y blwch teganau.

Mae'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn mynd ati'n llawn cyffro i osod siop chwarae rôl gydag eitemau i'w gwerthu ac yn cael llawer o hwyl yn chwarae cuddio. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddechrau eu chwarae eu hunain, ac i ddylanwadu ar eu gweithgareddau. Mae'r plant yn gallu defnyddio teganau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn dewis gyda beth i chwarae. Caiff diddordebau unigol y plant eu hystyried ac mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau i wella eu profiadau. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, a gwnaethant gyffroi pan ddywedodd y gwarchodwr plant wrthynt ei bod wedi prynu llithren newydd.

Mae annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda. Cânt eu hannog i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn gallu helpu eu hunain i'r teganau yn y blychau a dewis llyfr yn annibynnol ar gyfer amser stori. Maent yn gwybod i dynnu eu hesgidiau ac i roi eu cotiau a'u bagiau i gadw ar ôl yr ysgol ac maent yn llwyddo i wneud hyn heb lawer o help gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n hyderus am ei chyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'n ymateb yn dda i senarios diogelu ac yn deall y gweithdrefnau yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefn ddiogel wrth hebrwng y plant i'r ysgol ac oddi yno ac mae'n sicrhau bod y plant yn ddiogel yn y bygi. Mae'n darparu byrbrydau a diodydd pan fydd angen, ond mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod â'u pecynnau cinio eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol, ond nid yw dwylo'n cael eu golchi mewn modd amserol bob amser cyn byrbryd. Mae'n darparu eu tywelion unigol eu hunain i'r plant sychu eu dwylo. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael digon o amser i chwarae yn yr awyr agored ac awyr iach. Mae ganddi dystysgrifau hyfforddiant diogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd dilys. Mae gan y gwarchodwr plant gofnodion priodol ar gyfer unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau, ac mae'n cofnodi meddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Fodd bynnag, nid yw'n sicrhau bod cydsyniad wedi'i lofnodi wedi'i gael gan y rhieni i roi'r feddyginiaeth yn dilyn caniatâd electronig y rhieni bob amser.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn dda. Mae cydberthynas gadarnhaol rhyngddi a'r plant. Mae'n rheoli ymddygiad y plant a'u hanghenion unigol yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i rannu a bod yn gwrtais. Mae'n canmol ymddygiad da ac yn hybu eu hunan-barch yn dda. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn canmol eu cyflawniadau, fel pan lwyddodd plentyn i eistedd wrth y bwrdd heb gymorth a phan ddangosodd un plentyn ble roedd tywel dwylo plentyn arall. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos parch, cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol. Mae'n ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'u datblygiad, ac yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion ac arferion unigol pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i rannu newyddion am eu diwrnod yn yr ysgol a'u hanifeiliaid anwes, gan ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, *“What colour is your dog?”* a *“What is that colour in Welsh?”.* Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg ac mae'n defnyddio ymadroddion Cymraeg syml gyda chymorth adnoddau dysgu ac mae hefyd yn darparu llyfrau a theganau i'r plant sy'n hyrwyddo diwylliant Cymru.

**Yr Amgylchedd** **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae gât ar waelod y grisiau, sy'n atal y plant rhag mynd i fyny i'r llawr cyntaf. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio llyfr ymwelwyr i lofnodi enwau pobl wrth gyrraedd a gadael y safle a chaiff bathodynnau adnabod eu gwirio wrth gyrraedd y lleoliad. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o aelodau'r aelwyd sy'n bresennol pan fydd yn gwarchod plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd cartrefol. Mae wedi datblygu asesiadau risg priodol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn cofnodi dyddiadau adolygu'r asesiadau risg. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw cofnodion priodol. Mae gwiriadau diogelwch gwresogi ar waith ac mae arferion glanhau yn adlewyrchu arferion hylendid addas.

Mae'r eiddo yn lân ac yn groesawgar. Mae'r toiled ar y llawr gwaelod ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn goruchwylio ac yn cefnogi'r plant iau pan fo angen. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ei chegin/ardal fwyta ac ardal eistedd i warchod y plant. Mae modd mynd i'r ardd gefn ddiogel a gofod ar wahân, os oes angen, er mwyn cysgu neu gael amser tawel. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae, a gofod sy'n addas ar gyfer yr ystodau oedran dan sylw. Ceir gardd awyr agored ddiogel y gall plant fynd ati o'r ardal fwyta sy'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant gael awyr iach ac amser chwarae corfforol. Ni welsom y plant yn chwarae yn yr ardd yn ystod ein hymweliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar amrywiaeth o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'n darparu ystod o adnoddau ar gyfer y plant, gan gynnwys rhai creadigol, chwarae rôl, iaith ac adnoddau byd bach. Mae digon o deganau i ennyn diddordeb y plant. Caiff y blychau storio eu labelu a'u storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu gweld y cynnwys a helpu eu hunain. Gellir gofyn am unrhyw eitemau sydd wedi'u storio ar lefel uchel neu yn y garej. Ceir rhai adnoddau fel llyfrau a doliau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn aml gyda'r plant hŷn ac yn dathlu rhai gwyliau fel Diwali.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac yn rhedeg ei gwasanaeth yn briodol. Mae'n ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac yn mynd i'r afael ag unrhyw argymhellion. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir. Mae gan y gwarchodwr plant ystod o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol ganddi. Mae'n sicrhau bod cofnodion a dogfennaeth y plant yn gywir ac yn gyflawn, sy'n cynnwys ystod o ffurflenni caniatâd a chofrestr plant. Nid yw'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei diweddaru bob amser pan fydd y plant yn gadael y lleoliad. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrifau cyfredol fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a dogfennau'r car, ond nid yw'n defnyddio ei cherbyd yn aml at ddibenion gwarchod plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth ac yn myfyrio arno ac yn llunio adroddiad addas ar ansawdd y gofal. Mae'n ceisio gwybodaeth gan rieni i'w chefnogi i werthuso ei gwasanaeth ac mae'n rhoi cyfle i wneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i ddatblygu ei busnes i sicrhau ei bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae'r gwarchodwr plant yn ystyried gwelliannau i'r broses adborth i rieni ac i wella'r adnoddau a'r cyfleoedd i blant elwa ymhellach arnynt.

Mae gan y gwarchodwr plant gymwysterau addas ac mae wedi cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant gofynnol, fel diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'n ymrwymedig i ddatblygu ei datblygiad proffesiynol ei hun drwy fynychu cyrsiau hyfforddiant amrywiol ac mae wrthi'n cwblhau cymhwyster ychwanegol. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar ei chyfer hi ac aelodau'r aelwyd sy'n hŷn na 16 oed yn ddilys.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd drwy gyfathrebu â nhw ar lafar a thrwy ddulliau electronig. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o'i chymuned leol. Er enghraifft, mae'n mynd â'r plant ar deithiau i leoedd amrywiol fel parciau, sydd o fudd i ddatblygiad a dysgu'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i weithio'n agos gyda gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod arferion hylendid priodol yn cael eu dilyn bob amser. |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Sicrhau y ceir caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni ar ôl derbyn unrhyw cydsyniad electronig gan rieni i roi meddyginiaeth. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau y caiff cofnodion presenoldeb eu diweddaru pan fydd y plant yn gadael y gwasanaeth. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff cofnodion eu cadw o unrhyw oedolion sy'n bresennol pan fydd yn gwarchod plant. |
| Sicrhau bod dyddiad yn cael ei gofnodi ar yr asesiadau risg ar ôl eu hadolygu. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2024